Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod Cyngor Bro
26 Hydref 2021

Presennol: S. Edwards (Cadeirydd), J. Roberts; A. Mummery, D. Jones(1) A. Jones, G. C. Jones, G. Parry, I Gruffydd, R. M. Jones, Catherine Morris Roberts, D. Jones (2),.
Cynghorydd Sirol: R. Williams
Anwen Le Cras - Clerc - cofnodi
Gillian Morris - Clerc newydd

		Gweithred
1.0	**Ymddiheuriadau:**	
2.0	**Datganiadau o Ddiddordeb -** D. Jones (1) - Tir ger y toiledau. A. Mummery - Cais y Gymdeithas Chwaraeon	
3.0	**Swydd y Clerc -** Grwp tasg wedi cyfweld Gillian Morris. Argymhell i'r Cyngor Bro ei phenodi fel Clerc a Swyddog Ariannol Priodol. Anwen Le Cras i barhau yn ei swydd hyd at ddiwedd Mawrth 2022 er mwyn cloi y gwaith gyda'r Neuadd Goffa ac i drosglwyddo'r gwaith i G. Morris. Cynigwyd gan G. Parry ac eiliwyd gan D. Jones (2). Cytunwyd yn unfrydol i'r hyn.	Anwen i yrru cytundeb swydd i G.Morris.
3.1	Croesawyd Gillian Morris i'r cyfarfod.	
4.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod 26/10/2021**	
4.1	Cynigwyd gan J. Roberts ac eiliwyd gan G. Parry . Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.	
5.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**	
5.1	**Dwr ar y Gors -** Dim byd pellach i adrodd gan R.G. Hire. Nodwyd gan y Cadeirydd y bod gwaith i ledaenu'r llwybr troed/beicio yn cychwyn o fewn yr wythnos. Mae'n debygol y fydd y traeanau'n cael sylw wrth i'r gwaith hyn gael ei wneud.	
5.2	**Siglen -** y partiau wedi cyrraedd, gofyn i Andre Le Cras eu gosod. A. Le Cras yn datgan ei bod yn briod i Andre.	Clerc i drefnu.
5.3	**Goleuadau y maes aml bwrpas.** Y Cadeirydd wedi troi'r goleuadau ymlaen ond mae'r mesurydd angen sylw.	Cadeirydd
5.4	**Teiars yn y fynwent -** Y Clerc wedi trefnu i gwmni Humphreys Waste Management eu nhôl a'u gwaredu'n gyfreithiol.	
5.5	**Polisi Cyhoeddi -** G.C. Jones wedi creu dogfen ddrafft. Gofynnir i bawb ei ddarllen ac ymateb i Gareth gydag unrhyw sylwadau.	Pawb
5.6	**Sul Y Cofio -** Diolchwyd i bawb a fynychodd y gwasanaeth ger y gofeb ac i'r cadeirydd am ei ddarlleniad.	
5.7	**Trefniadau Nadolig -** Y Goleuadau a'r goeden wedi'u gosod erbyn hyn. Trefniadau yn eu lle ar gyfer y Cyngerdd Carolau 16/12/2021. Cynigwyd gan A. Mummery ac eiliwyd gan A. Jones bod y Cyngor Bro yn rhoi cydnabyddiaeth o £50.00 i Dylan Roberts, Marquess Masonry a'i staff a fu'n helpu gosod y goeden a'r goleuadau. Cytunwyd i roi £50.00 tuag at gost parti Nadolig y cwmni yn y Penrhos. Y Clerc i roi siec i'r Penrhos tuag at yr achlysur.	Clerc
6.0	**Cofnodion Pwyllgor Neuadd Goffa 02/11/2021 a 23/11/2021**	
6.1	Cynigwyd gan A. Jones ac eiliwyd gan J. Roberts, derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.	
7.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**	

7.1	Clwb Snwcer wedi derbyn copi o'r gytundeb newydd. I'w arwyddo cyn ail agor.	Clerc/Llew Jones, Clwb Snwcer
7.2	Clerc wedi cyflwyno cais i Wales and West am bris i symud y darllenydd nwy i gefn yr adeilad. Y peiriannydd gwres canolog am osod peipen dros dro i brofi'r sustem yn y cyfamser.	Clerc
7.3	Cwmni Corona - darlleniadau mesurydd wedi'i gyrru 'mlaen. Disgwyl ad-daliad ar ddarlleniad terfynol y mesurydd "economy 7".	Clerc
7.4	Pwyntiau gwefru EV. G. C. Jones i ddilyn fyny gyda Menter Môn.	G. C. Jones
8.0	**Cofnodion Pwyllgor Meysydd Chwarae**	
8.1	Cynigwyd gan A. Mummery ac eiliwyd gan S. Edwards. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.	
9.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**	
9.1	**Arwydd i'r defibrillator - A. Jones a S. Edwards i weithredu**	A. Jones/S.Edwards
9.2	**Band Eang i'r CCTV -** Y clerc wedi cofrestru'r adeilad gyda Royla mai;. BT rwan yn derbyn fod yr adeilad yn bodoli. Bydd rhaid i BT gynnal archwiliad cyn rhoi amcan bris am gysylltu llinell ffôn newydd. Cost yr archwiliad, £260 & TAW. Cynigiwyd gan A. Mummery ac eiliwyd gan R.M. Jones fod y Cyngor yn talu am yr archwiliad. Clerc i drefnu'r gwaith.	Clerc
9.3	**Arolwg Maes Chwarae -** G.C. Jones i gynnal arolwg ffurfiol a chreu adroddiad ym mis Ionawr 2022. Y gofalwr yn cynnal archwiliad weledol rheolaidd ac yn adrodd unrhyw ddifrod i'r Clerc.	G. C. Jones
9.4	**Cais gan Y Gymdeithas Chwaraeon -** derbyniwyd cais gan y Gymdeithas Chwaraeon am £600 ar gyfer drysau newydd i'r ystafell newid ym Maes Eilian. Nid yw'r Gymdeithas mewn sefyllfa ariannol i allu gwneud hyn heb gymorth oherwydd colled incwm trwy gydol y pandemig. Cynigiwyd gan R. M Jones ac eiliwyd gan J. Roberts i dalu £600 tuag at y drysau newydd. Nodir bod cefnogaeth ar gael i'r Gymdeithas gan y Cyngor Bro gydag ysgrifennu ceisiadau grant.	Clerc
9.5	**Tir ger y toiledau -** Y Pwyllgor yn argymhell cynnig prydles ar y tir i Mr Roberts**.** I'w drafod yn eitem 13	
10.0	**Cofnodion Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo**	
10.1	Cynigiwyd gan A. Mummery ac eiliwyd gan J. Roberts. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.	
11.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**	
11.1	**Llifogydd yn y Gorlan -** Cwmni Hefin Thomas yn delio gyda'r mater	
11.2	Cais am gyllideb 2022/23 - ffenestri a drysau allan y Gorlan angen eu adnewyddu. Cadeirydd Pwyllgor y Cylch i cael amcan bris. Pwyllgor Cyllid i weithredu.	Pwyllgor Cyllid / Clerc
11.3	Rhandiroedd/Fynwent - nodwyd bod giat yn y fynwent yn dilyn i'r llecyn tir sydd dan sylw i'w ddatblygu'n randiroedd. Y Clerc i ofyn i CSYM dynnu'r giat a chodi wal terfyn neu gwrych.	Clerc
12.0	**Cyfrifon a Thaliadau Tachwedd 2021**	
12.1	Cynigwyd gan A. Mummery ac eiliwyd gan J. Roberts. Derbyniwyd y taenlenni a chytunwyd i'r taliadau.	
12.2	Adroddwyd gan y Clerc y bydd arian benthyg gan PWLB yn y banc wythnos nesaf. Yr arian hyn ar gyfer prosiectau cyfalaf yn unig - Neuadd Goffa, Toeau Pafiliwn, Clwb Bowlio a sied y gofalwr.	Clerc
12.3	Ad daliadau i'w hawlio gan gwmni Corona, TAW a CSYM.	Clerc

13.0	**Tir Ger y Toiledau. -** Trafodwyd y cais gan Mr Adam Roberts i brynu llecyn tir tu cefn i adeilad yr hen doiledau. Cais i gofrestru'r tir yn nwylo'r cofrestr tir. Y Pwyllgorau Meysydd Chwarae a'r Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo wedi trafod ac yn argymhell cynnig prydles hir dymor i Mr Roberts fyddai'n galluogi iddo agor ei fusnes yn yr adeilad ond yn sicrhau bod y Cyngor Bro gyda rheolaeth o ddefnydd y tir i'r dyfodol. Cynigiwyd gan R.M Jones ac eiliwyd gan A. Jones i'r Cyngor Bro gynnig prydles i Mr Roberts. Ni gymerodd A. Mummery a J. Roberts rhan yn y bleidlais.	Clerc i weithredu wedi derbyn y cofrestriad tir.
14.1	**Rhandiroedd -** Cynhaliwyd ymgynghoriad ar ddwy safle arfaethedig. Yr ymateb yn ffafrio safle ger y Fynwent. D. Jones (1) i gyfarfod gydag aelodau allanol Pwyllgor y Fynwent i drafod eu pryderon am y safle. I'w drafod eto yn y cyfarfod 14/12/21.	D. Jones / G. Parry
15.0	**Cynllun Gwaith. - Llwybr Cerdded a Beicio -** Y llwybr trwy'r Gors tuag at yr ysgol am gael ei ledaenu fel rhan o Gynllun teithio i'r ysgol yn saff. Y Cyngor Bro yn croesawu'r cynllun ac yn diolch i'r Cadeirydd am gyfarfod a'r swyddogion o'r Cyngor Sir.	
16.0	**Ceisiadau Cynllunio -** Dim	
17.0	**Penderfyniadau Cynllunio -** Dim	
18.0	**Adroddiadau gan Bwyllgorau Allanol -** er gwybodaeth	
	Cyfarfod nesaf - Nos Fawrth 30 Tachwedd 7:00yh yn rhithiol ar Zoom	